**FSAW 19/04/02**
**I'w drafod**

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar Faterion a Godwyd yng Nghyfarfod Diwethaf y Bwrdd**

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd gan y Cadeirydd yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019, yn ogystal â materion trafod allweddol yn ymwneud â chylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy http://www.food.gov.uk (Saesneg yn unig)

2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:

- **nodi** trafodaethau'r Bwrdd
- **gwahodd** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

**Cysylltwch ag:** Elora Elphick
Elora.Elphick@food.gov.uk

**FSAW 19/04/02**
**I'w drafod**
**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – Ebrill 2019**

## 1. Adroddiad Cadeirydd y Bwrdd i gyfarfod Bwrdd Mawrth 2019

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar waith y Bwrdd a thynnu sylw at y diwrnod datblygu a gynhaliwyd ar gyfer Gweithrediaeth a Bwrdd yr ASB ym mis Ionawr i ystyried risg gorfforaethol a ffurf y cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod. Darparwyd gwybodaeth am ystod o gyfarfodydd a gynhaliwyd i drafod cynllunio ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) gan gynnwys cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, gyda Gweinidog Iechyd y Cyhoedd, Steve Brine a gyda Gweinidog Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), David Ruttley. Hefyd, fe dynnodd Cadeirydd y Bwrdd sylw at drafodaethau gyda David Ruttley ynghylch darpariaeth yr ASB o wasanaethau lles anifeiliaid a chyfarfod a gynhaliwyd gyda'r Arglwydd Gardener, Gweinidog yr Arglwyddi ar gyfer Defra, i drafod ei bortffolio ynghylch bioddiogelwch a'i rôl mewn perthynas â digwyddiadau bwyd.

## 2. Crynodeb o'r prif eitemau a drafodwyd

2.1 Yng nghyfarfod mis Mawrth 2019, ystyriodd y Bwrdd y materion canlynol:

- **Ymadael â'r UE:** Diweddariad llafar mewn perthynas â gwaith yr ASB o ran ymadael â'r UE.

- **Perfformiad Awdurdodau Lleol:** Roedd y papur yn gosod cynigion ar gyfer diweddaru a gwella sut y gall yr ASB fonitro, asesu a rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad awdurdodau lleol.

- **Diweddariad Gwyddonol Blynyddol gan Brif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB a'r Adroddiad Gwyddonol Blynyddol gan Gadeirydd y Cyngor Gwyddoniaeth:** Roedd y ddau adroddiad blynyddol hyn yn cynnig safbwynt personol, un gan Brif Gynghorydd Gwyddonol annibynnol yr ASB a'r llall gan Gadeirydd y Cyngor Gwyddoniaeth. Roedd y ddau adroddiad yn amlinellu statws cyfredol gwyddoniaeth yr ASB ac yn nodi'r cyfleoedd a'r heriau allweddol sydd o'n blaenau.

- **Sicrwydd Risg:** Mapiodd y papur fecanweithiau sicrwydd arfaethedig i fod yn gymwys trwy gyfnodau'r broses dadansoddi risg ac roedd yn nodi dull yr ASB o fynd ati i ystyried a rhoi tystiolaeth o set eang a phriodol o effeithiau yn rhan o'r gwaith rheoli risg.

- **Rheoli Risg Strategol:** Nododd y papur yr amserlen i'r Bwrdd ystyried y blaenoriaethau strategol nesaf ar gyfer yr ASB, ac roedd yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau gweithdy risg blynyddol y Bwrdd.

- **Dull yr ASB at Reoli Buddiannau ei Chynghorwyr Gwyddonol Allanol:** Nododd y papur ganllawiau diwygiedig a gynigiwyd ar gyfer rheoli buddiannau ymgynghorwyr gwyddonol allanol yr ASB.

2.2 Bydd cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Mawrth 2019, a fydd yn darparu mwy o gyd-destun yn ogystal â chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod, yn cael eu huwchlwytho i wefan yr ASB yn fuan drwy: https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-March-2019

2.3 Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod busnes ar 7 Mawrth i gytuno ar ei fewnbwn i drafodaethau'r Bwrdd uchod.

## 3. Materion eraill

3.1 Ers cyfarfod agored diwethaf y Pwyllgor, rwyf wedi bod yn rhan o ystod o drafodaethau gyda Chadeirydd y Bwrdd o ran bwrw ymlaen â chanfyddiadau sy'n deillio o'r Adolygiad o'r Pwyllgor Cynghori ar Fwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

3.2 Es i gyda Chadeirydd y Bwrdd a Julie Pierce i'r cyfarfod Gweinidogol gyda Vaughan Gething ar 2 Ebrill lle cynhaliwyd trafodaethau defnyddiol ar ymadael â'r UE, alergenau, a phenodiadau i'r Bwrdd a'r weithrediaeth.